# Taith y Goedwig

Llechi Cymru
Wales Slate

CRONFA DREFTADAETH
HERITAGE FUND

## Gwybodaeth hanfodol

Rydym yn awyddus i chi fwynhau'ch ymweliad â Pharc Gwledig Padarn ond cofiwch y gall rhai rhannau o'r Parc fod yn beryglus ac y dylid cadw llygad ar blant trwy'r amser.

- Cadwch at y llwybrau sydd ag arwyddion cyfeirio yn unig
- Peidiwch â mynd i mewn i adfeilion adeiladau
- Cadwch draw o hen adeiladweithiau'r chwarel
- Mae rhai o'r llwybrau'n anwastad a rhai ar ymyl dibyn serth
- Mae hen weithfeydd y chwarel, llwybrau serth trwy'r coed a dyfroedd dwfn yn y Parc

1 Cychwynnwch o Man Gwybodaeth Parc Gwledig Padarn yn y *Gilfach Ddu* a cherdded i gyfeiriad adeilad gorsaf Rheilffordd Llyn Padarn. Dilynwch yr arwyddion cyfeirio melyn a cherdded rhan o'r ffordd i fyny inclên A1. Câi'r llechi eu cludo i lawr yr inclên i'r iard. Roedd pwysau'r wageni llawn yn codi'r wageni gwag yr ochr arall. Cadwch eich llygaid yn agored am yr inclêns a'r cytiau criwlio neu'r tai drym y llwybr.

2 Caewyd Chwarel Vivian yn 1964. Gelwir twll y chwarel yn 'sinc'. Pan ddiffoddwyd y pympiau, llanwodd y sinc â dŵr gan ffurfio pwll sy'n 20 metr / 60 troedfedd o ddyfnder. Mae'r coed yn adfeddiannu'r dirwedd yn raddol. Gallech weld cigfrain a bwncathod yma.

3 Dyma Ysbyty Chwarel Dinorwig. Fe'i codwyd yn 1860 i ofalu am weithwyr y chwarel. Ysbyty'r Chwarel oedd yr ysbyty cyntaf yn y gogledd i wneud sganiau pelydrau X. Amgueddfa yw'r ysbyty erbyn hyn.

4 Gadewch dir yr ysbyty, ewch heibio i'r marwdy ac i mewn i *Goed Dinorwig*. Cafodd ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan ei fod yn goetir hynafol Derw Mes Di-goes, un o'r mwyaf yng Nghymru.

5 Tua 200 metr o'r prif lwybr mae clwstwr o adeiladau a fu unwaith yn felin wlân. Fodd bynnag, does dim arwyddion cyfeirio ar y llwybr at y felin wlân ac ni wneir gwaith cynnal arno. Yn ddiweddarach, cafodd y felin ei throi'n ffatri i wneud nwyddau llechi, fel offer ar gyfer ysgolion. Dŵr a gyfeiriwyd o *afon Fachwen* oedd yn gyrru'r peiriannau. Roedd cychod a gâi eu cadw ar lan y llyn yn cludo'r nwyddau hyn i Lanberis.

6 Roedd cronfa ddŵr fechan yn uwch i fyny'r afon yn rheoli llif y dŵr.

7 Roedd cwt caps yma ers talwm. Roedd caps (detonators) yn cael eu defnyddio i danio ffrwydron oedd yn rhyddhau'r graig o'r mynydd. Roeddent yn cael eu cadw'n ddigon pell o'r tŷ powdwr yr ochr draw i'r bonc.

8 Dyma *Farics Dre Newydd / Anglesey Barracks*. Roedd chwarelwyr o'r tu allan i'r ardal yn byw mewn barics yn ystod yr wythnos. Dwy ystafell fach oedd ym mhob tŷ a phedwar o ddynion yn rhannu tŷ. Ychydig o ffenestri oedd yng nghefnau'r tai. Roedd cadw'r elfennau allan yn bwysicach na mwynhau'r olygfa.

9 Ewch i lawr y llwybr i ymuno â'r *Llwybr Main* sy'n rhedeg igam-ogam. Cafodd ei greu gan y chwarelwyr oddi mewn i'r domen lechi i'w gwarchod rhag y tywydd. Mae'r ffordd mae'r blociau llechi'n ffitio'n glòs wrth ei gilydd yn dangos pa mor fedrus yr oeddent. Roedd seddi yn rhan o'r wal fel y gallai'r chwarelwyr oedd yn cerdded ffordd bell i'r gwaith orffwys ar eu taith. Wrth gyrraedd y ffordd, trowch i'r dde. Dilynwch yr arwydd i Barc Gwledig Padarn a maes parcio *Gilfach Ddu*.

